

Hawdd i Ddeall - Blog gan Dr Rachel Ann Jones



Rydym wedi bod yn helpu pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru ers 6 mlynedd. Rydym eisiau gwneud mwy ac rydym angen eich help chi.



Rydym yn dechrau grŵp newydd i rannu syniadau a gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl ag anabledd dysgu.



Mae croeso i bawb ymuno â'r grŵp am ddim. Mae hyn yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd, eu gofalwyr, a gweithwyr gofal proffesiynol.



Rhwng 2019 a 2025, gwnaethom wneud gofal yn fwy diogel ac yn well. Ond mae problemau sydd angen eu datrys o hyd er mwyn gwneud gofal iechyd yn fwy teg i bobl ag anabledd dysgu.



Rydym eisiau data gwell, mwy o wiriadau iechyd, arosiadau byrrach yn yr ysbyty, a gofal mwy caredig. Mae angen eich help arnon ni.



Mae'r grŵp yn helpu pobl i weithio gyda'i gilydd ar faterion yn ymwneud ag anabledd dysgu. Mae'n gyfle i rannu syniadau a gwella pethau.



Ymunwch â ni i gymryd rhan yn ein gwaith trwy rannu eich syniadau. Gadewch i ni wneud Cymru'n lle gwell.



Dyma eich cyfle i'n helpu ni i wneud gwahaniaeth. Cofrestrwch i fod yn rhan o gymuned lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. [Rhagor o wybodaeth.](#)